

GWYBODAETH
I RIENI /
GWARCHIEDWAID

Canllaw i FFORWM Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

Mae'r Awdurdod Lleol yn annog gweithio mewn partneriaeth â rhieni, gwarcheidwaid, disgyblion, ysgolion, colegau a gweithwyr proffesiynol.

Mae Fforwm y Blynyddoedd Cynnar yn fforwm amlasiantaeth sy'n rhoi cymorth i blant o dan oedran ysgol gorfodol ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** posibl neu ADY wedi'u cadarnhau.



RHONDDA CYNON TAF

Beth yw Fforwm y Blynyddoedd Cynnar?

Mae'r fforwm yn banel amlasiantaeth o ystod eang o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant o dan oedran ysgol gorfodol.

Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol gwasanaethau amrywiol gan gynnwys Addysg, Iechyd, Gwasanaethau i Blant a Gofal Plant. Mae rhai o'r gwasanaethau yn cynnwys: Seicolegwyr Addysg, Ymwelwyr Iechyd, Y Gwasanaeth Cymorth Dysgu, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau i Blant, y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth a'r garfan Gofal Plant.



Beth yw pwrpas y Fforwm?

Mae'r Fforwm yn cynnig man canolog o ran cymorth i blant ag ADY posibl. Bydd y Fforwm yn trafod plant ac yn sicrhau eu bod nhw'n manteisio ar y gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd eu hangen i ddiwallu eu hanghenion. Bydd gweithwyr proffesiynol yn ystyried a oes gan blentyn ADY ac a oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

Pryd dylid atgyfeirio plentyn at y Fforwm?

Dylid atgyfeirio plant ar ôl nodi anghenion fydd, o bosibl, yn effeithio ar eu haddysg yn y dyfodol. Dylid cyflwyno tystiolaeth o rwystrau i chwarae/dysgu gydag atgyfeiriad a dylid cynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl am y plentyn, a hynny gan ystod o weithwyr proffesiynol.

Bydd angen i'r plentyn fod rhwng 0 a 5 oed a pheidio â mynychu ysgol a gynhelir neu feithrinfa.

Pwy all atgyfeirio at Fforwm y Blynyddoedd Cynnar?

Caiff plant eu hatgyfeirio gan weithwyr proffesiynol ym maes Iechyd (e.e. Pediatregwyr, Ymwelwyr Iechyd, Therapyddion Galwedigaethol neu weithwyr proffesiynol eraill ym maes Iechyd).

Caiff lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar hefyd atgyfeirio at y Fforwm. Caiff rhieni atgyfeirio at Fforwm y Blynyddoedd Cynnar ond dylai atgyfeiriad fod wedi'i ategu gan weithwyr proffesiynol ym meysydd Iechyd a Gofal Plant.



Beth sy'n digwydd ar ôl i blentyn gael ei atgyfeirio?

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu bod gan blentyn ADY, bydd Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael ei lunio ar gyfer y plentyn. Mae CDU yn gynllun y mae pawb yn cytuno arno. Mae'n nodi sut bydd plentyn ag ADY yn cael ei gynorthwyo a chan bwy.



Eiriolaeth

Pan fydd angen cymorth mae modd ei geisio gan eiriolwr. Mae eiriolwr yn unigolyn fydd yn siarad ar eich rhan. Gall fod yn ffrind, aelod o'r teulu neu'n asiantaeth broffesiynol.

Os oes angen eiriolwr proffesiynol arnoch chi, cysylltwch â SNAP:

Llinell gymorth: 0808 801 0608

☎ 02920 348 990 ✉ **ymholiadau@snapcymru.org**

Gwybodaeth a Chyngor

I gael gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Gynlluniau Datblygu Unigol, cysylltwch â ni:

☎ **01443 744344**

✉ **GweinydduAAA@rctcbc.gov.uk**

🌐 **www.rctcbc.gov.uk**

🌐 **www.snapcymru.org/?lang=cy**

TAAAC

www.taaac.llyw.cymru

SNAP Cymru

www.snapcymru.org/?lang=cy

NYAS

www.nyas.net

Llywodraeth Cymru

www.llyw.cymru



LLWYBR I RIENI

Lleoliad y BC, gweithwyr proffesiynol neu riant/gwarcheidwaid yn codi pryder.

Rhiant/gwarcheidwad yn ceisio cyngor, cymorth ac arweiniad gan y gweithwyr proffesiynol perthnasol. Gweithwyr proffesiynol yn trafod ac yn casglu tystiolaeth/asesiadau priodol.

Atgyfeiriad yn cael ei wneud at Fforwm y BC.

Fforwm y BC/Panel Ymgynghori'r BC yn trafod y plentyn i gadarnhau ADY posibl.

CADARNHAU ADY

Bydd CDU yr Awdurdod Lleol yn cael ei lunio mewn partneriaeth â chi a'r holl weithwyr proffesiynol priodol.

Bydd CDU yr Awdurdod Lleol yn cael ei adolygu bob blwyddyn a chyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol.

HEB GADARNHAU ADY

Lleoliad y BC yn parhau i roi cymorth i'r plentyn.